- **Dylanwad technoleg**:
  Mae technoleg yn chwarae rôl gynyddol amlwg ym mywydau pobl, yn gymdeithasol ac yn eu bywydau gwaith, ac mae'r dylanwad yma wedi dwysau ers y cyfnod clo.  Mae diffyg adnoddau a datblygiadau cyfrwng Cymraeg yn golygu bod dylanwad y Saesneg yn cynyddu ar fywydau dydd i ddydd.  Mae newidiadau yn arferion pobl, eto wedi ei dwysau gan newidiadau yn y modd mae gwasanaethau yn cael eu cyflwyno yn y blynyddoedd diweddar, yn cyflwyno heriau penodol o ran defnydd pobl o wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

- **Sylfaen tystiolaeth**:
  Mae'n dod yn gynyddol bwysig ein bod yn gallu asesu effaith cynlluniau ar y Gymraeg, ond ein bod hefyd yn gallu mesur effaith, a mesur llwyddiant ein cynlluniau a'n ymyraethau.  Er bod llawer o waith ymchwil wedi ei wneud i'r Gymraeg, mae nifer o fylchau hefyd yn y dystiolaeth gyfredol sydd gennym i brofi'r cyswllt ac effaith ffactorau penodol, megis yr economi a twristiaeth, ar yr iaith.

- **Heriau demograffig a daearyddol:**
  Mae nifer o heriau eraill, fwy cymhleth, yn effeithio ar ffyniant iaith a ffyniant ein cymunedau, a'r rheiny mewn meysydd lle mae dylanwad y Cyngor ar ei ben ei hun yn fwy cyfyng, neu yn cael ei rwystro gan ffactorau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys yr heriau a wynebir gan allfudo a mewnfudo, ynghyd a'r newidiadau yn oedran y boblogaeth a'r gwahaniaethau mawr sydd yna o ran natur cymunedau o un ardal i'r llall sydd yn gwneud cynllunio ymyraethau ar sail sirol yn anodd.

- Strategaeth Iaith Ysgolion Uwchradd

Mae'r ddau brosiect yma yn edrych yn benodol ar gynyddu defnydd iaith disgyblion o fewn cymuned yr ysgol ac yn edrych y tu hwnt i'r addysg ffurfiol.

Mae'r fenter iaith, Hunaniaith, yn rhan o Uned Iaith y Cyngor ar hyn o bryd, ac yn gweithredu nifer o brosiectau sydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Maent hefyd yn cynnal gweithgareddau penodol i gefnogi dysgwyr.

Mae prosiectau eraill y Cyngor yn cynnwys:

- Arfor - prosiect sydd yn gweithio yn benodol i ddatblygu cyfleoedd economaidd yn y pedair sir sydd yn cael eu hystyried yn "gadarnleoedd" y Gymraeg.
- Prosiect Enwau Lleoedd – prosiect sydd yn edrych ar gyfleoedd i hybu defnydd o enwau Cymraeg o fewn ein cymunedau ac yn ceisio sicrhau bod yr enwau hynny yn cael eu gwarchod.
- Map Gweithgareddau Gwynedd -map rhyngweithiol sydd wedi ei ddatblygu er mwyn gallu rhannu gwybodaeth yn rhwydd a hwylus am weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y sir.
- Gweithgareddau amrywiol gwasanaethau – Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd, gwasanaeth Ieuenctid, LleCHI,
- Pecyn Croeso i Wynedd – sydd yn rhoi gwybodaeth i newydd-ddyfodiaid am yr iaith yng Ngwynedd.

**Beth arall sydd angen sylw?**
*-beth fyddwn ni'n gweithio arno neu yn gobeithio rhoi sylw iddo yn ystod cyfnod y strategaeth nesaf?*

Wrth i'r gwaith o ddadansoddi data'r cyfrifiad fynd rhagddo, bydd angen i ni hefyd edrych ar wybodaeth sydd yn dod o wahanol ymgynghoriadau, ac o waith asesu llesiant y sir er mwyn datblygu dealltwriaeth o be mae "cymuned" yn ei olygu yn y Gwynedd fodern. Mae deall ein cymunedau yn allweddol er mwyn i ni allu cynllunio prosiectau sydd yn gynhwysol.

Byddwn yn edrych ar ffyrdd o fesur defnydd iaith yn gymunedol er mwyn gallu blaenoriaethau a chynllunio ymyraethau.

Mae datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol yn mynd i fod yn allweddol, ac yn enwedig felly fel rhan o'r cymunedau digidol.

Byddwn yn cydweithio felly efo partneriaid Fforwm Iaith Sirol – Ffermwyr Ifanc, yr Urdd, cynrychiolwyr mentrau cymunedol, er enghraifft - er mwyn canfod cyfleoedd i gynyddu'r cyfleoedd cymdeithasu cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu mewn unrhyw ardaloedd lle mae diffyg cyfleoedd ar hyn o bryd.

Bydd hefyd angen gweld mwy o gynlluniau cyfeillion a sesiynau sgwrsio er mwyn cynorthwyo a magu hyder dysgwyr i wneud y cam o ddysgu mewn gwersi i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned.

Drwy gynlluniau fel Arfor, byddwn yn ceisio cefnogi mwy o fentrau cymunedol i greu gweithgareddau a chynlluniau economaidd fydd yn elwa'r cymunedau eu hunain. Mae nifer o fentrau cymunedol llwyddiannus iawn yng Ngwynedd, ac mae gan y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu gwasgaru yn gyfartal ar draws y sir, a bod cymunedau eraill yn cael cefnogaeth i ddatblygu mentrau hefyd.

**Beth fyddwn ni'n ei fesur?**

